**Atodiad 1**

**Pumed Adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru: Argymhellion a chamau gweithredu arfaethedig**

| Argymhelliad | Derbyn neu beidio | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| ARGYMHELLIAD 1<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod yr holl gyflogau a lwfansau'n cael eu cynyddu 4.3% o fis Medi 2024. | Peidio â derbyn | Ymgynghori ar gynyddu pob cyflog a lwfans 5.5% yn unol â'r ymrwymiad i sicrhau nad yw athrawon yng Nghymru dan anfantais. |
| ARGYMHELLIAD 2<br><br>Mae CACAC yn argymell, yn ystod 2024-2025, bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r dasg i weithgor teirochrog presennol ddechrau diwygio'r canllawiau ychwanegol sy'n ofynnol yn adran 3 DCAAY(C) yn unol â'r llinell amser yn yr adolygiad strategol. | Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad. | Llywodraeth Cymru i roi'r argymhelliad gerbron Fforwm Partneriaeth Cyflog ac Amodau Athrawon i gytuno ar ffordd ymlaen.<br><br>. |
| ARGYMHELLIAD 3<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod Cydlynwyr ADY yn cael eu penodi'n aelodau o'r uwch dîm rheoli/uwch dîm arwain ym mhob lleoliad addysg a bod y Cod ADY yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn erbyn mis Medi 2024. | Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad.<br><br>Rhoddir ystyriaeth i'w gwneud yn fwy eglur yn y Cod ADY bod yn rhaid i'r rôl fod yn rhan o'r uwch dîm arwain pan gynhelir yr adolygiad nesaf. Ni ellir pennu amserlenni ar hyn o bryd. Rhan o'r ystyriaeth fydd yr angen i ganiatáu hyblygrwydd i ysgolion gael gwneud eu penderfyniadau eu hunain yn seiliedig ar eu maint a'u strwythur. | Llywodraeth Cymru i ystyried hyn fel rhan o'r adolygiad nesaf o'r Cod ADY. |

| | | |
|---|---|---|
| ARGYMHELLIAD 4<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod Cydlynwyr ADY sy'n cael eu talu ar y PYC a'r YCU ar hyn o bryd yn cael eu talu ar yr YCGA o fis Medi 2024 ymlaen. Rydym yn argymell ymhellach y dylid cynnwys ALNCos yn adrannau 'tâl arweinyddiaeth' y STPC(W)D a'u bod yn ddarostyngedig i'r un telerau ac amodau ag arweinwyr. | Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad.<br><br>Dylid ystyried Argymhellion 4 a 5 yng ngoleuni Argymhelliad 3. | Llywodraeth Cymru i ystyried hyn fel rhan o'r adolygiad nesaf o'r Cod ADY. |
| ARGYMHELLIAD 5<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai Cydlynwyr ADY sy'n cael eu talu ar y PYC a'r YCU ar hyn o bryd gael cyflog ar yr YCGA ar bwynt ar y raddfa sydd naill ai'n gyfwerth â'u cyflog a'u lwfans presennol cyfunol neu ar y pwynt uwch agosaf. | Gweler uchod. | Llywodraeth Cymru i ystyried hyn fel rhan o'r adolygiad nesaf o'r Cod ADY. |
| ARGYMHELLIAD 6<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylid cynnig pecyn dysgu proffesiynol i Gydlynwyr ADY sy'n briodol i'w rôl, eu profiad a'u hanghenion, a bod cyflogwyr yn dyrannu digon o amser digyswllt i ymgymryd â'r dysgu proffesiynol hwn. | Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad. | Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at gyflogwyr yn eu hatgoffa o'r Rhaglen Dysgu Proffesiynol helaeth yn ymwneud ag ADY sydd ar gael ar Hwb, a bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i arweinwyr ysgolion gefnogi eu staff trwy eu rhyddhau i ymgymryd â hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol. |

| | | |
|---|---|---|
| ARGYMHELLIAD 7<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru ei bod yn comisiynu gwaith ymchwil ychwanegol yn 2024-2025 i bennu faint o amser digyswllt sy’n briodol i Gydlynwyr ADY er mwyn cynorthwyo arweinwyr i ddyrannu amser digyswllt ar gyfer dyletswyddau Cydlynwyr ADY. | Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad. | Fel rhan o'r gwerthusiad ym maes ADY, mae arolwg wedi'i anfon i ysgolion (10/06/24) i gael barn fanwl uwch arweinwyr, cydlynwyr ADY, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ynghylch eu rolau, gan gynnwys cwestiynau penodol ar faint o oriau sy'n cael eu treulio bob wythnos yn ymgymryd â rôl cydlynydd ADY.<br><br>Ar ôl i drefniadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg gael eu rhoi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg ymhlith cydlynwyr ADY i asesu'r cynnydd, gan ofyn cwestiynau penodol ynghylch gwarchod amser, yr heriau a'r rhwystrau. |
| ARGYMHELLIAD 8<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar gytundeb grŵp priodol sydd eisoes yn bodoli, fod geiriad y rhestr o dasgau gweinyddol a chlercyddol yn Atodiad 3 Adran 2 DCAAY(C) yn cael ei ddiweddaru fel yr amlinellir yn Atodiad Ch erbyn mis Medi 2024. | Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad. | Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru Atodiad 3 â thestun diwygiedig fel yr argymhellwyd gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar y newidiadau drwy'r broses ymgynghori. |
| ARGYMHELLIAD 9<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai’r rhestr yn Atodiad Ch gael ei hymestyn i gynnwys cyfeiriad at benaethiaid | Rhoddir yr hawliau a nodir ym Mharagraff 51 i **bob** athro sy'n cynnwys penaethiaid, ac arweinwyr eraill sy'n cael eu cyflogi fel athrawon mewn ysgol. | Bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau hyn fel rhan o'r ymgynghoriad. |

| | | |
|---|---|---|
| ac arweinwyr trwy ddiweddaru 46.1 DCAAY(C) erbyn mis Medi 2024 i gynnwys cyfeiriad at hawliau trosfwaol yr holl athrawon ym mharagraff 51, fel a ganlyn:<br>Oni ddarperir ar eu cyfer yn benodol yn eu contract cyflogaeth neu mewn man arall yn DCAAY(C), bydd gan benaethiaid cynorthwyol, dirprwy benaethiaid, penaethiaid ac arweinwyr eraill yr hawliau a roddir ym mharagraffau 51.8 a 51.9. | Felly, oni bai bod rhywun wedi'i eithrio o baragraff 51, dylent elwa o'r hawliau a nodir yn y paragraff hwnnw. | |
| ARGYMHELLIAD 10<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai amodau gwasanaeth ar gyfer arweinwyr gael eu harchwilio ymhellach yn rhan o'n cylch gwaith ar gyfer 2025-2026.<br><br>Yn y cyfamser, mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru ei bod yn atgoffa awdurdodau lleol a chyrff perthnasol o'u cyfrifoldebau fel cyflogwyr ac, yn arbennig, o'r angen i arweinwyr gael cyfnodau di-dor o orffwys. | Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad. | Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at gyflogwyr i'w hatgoffa o'r rhwymedigaeth o dan baragraff 51.4 o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) a'r terfynau gwaith a nodir yn Rheoliadau Amser Gwaith 1998. |
| ARGYMHELLIAD 11<br><br>Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod papur | Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad. | Llywodraeth Cymru i ddrafftio papur sy'n nodi opsiynau ar gyfer newid amseriad yr adolygiad o gyflogau, i'w drafod gyda phartïon |

| | | |
|---|---|---|
| briffio'n cael ei baratoi sy'n cyflwyno amserlen ar gyfer y broses flynyddol o adolygu cyflogau. Dylai'r papur briffio a'r asesiad o effaith cysylltiedig gael eu trafod gyda'r holl bartïon perthnasol yn ystod 2025-2026 i gytuno ar y ffordd ymlaen. | | perthnasol yn ystod 2025-2026. |
| ARGYMHELLIAD 12<br><br>Mae CACAC yn cyfeirio Llywodraeth Cymru at ei argymhellion blaenorol a gymeradwywyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, ac mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ar fyrder y ffordd y caiff deddfwriaeth cydraddoldeb ei monitro a'i hadrodd ar lefel ysgol ac awdurdod lleol, ac ystyried a oes angen newidiadau i DCAAY(C) a pholisïau cyflog ysgolion, er mwyn sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â chydraddoldeb. | Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad. | Ar hyn o bryd mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda thimau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i adolygu pa wybodaeth sydd ar gael eisoes/neu a allai fod ar gael ar lefel ysgol neu awdurdod lleol a sut y gallem gryfhau'r broses adrodd. Bydd rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau. |